# PWYLLGOR SAFONAU, 20.04.15

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Lesley Day, Eryl Jones-Williams a Michael Sol Owen.

**Aelodau Annibynnol:-** Ms Jacqueline Hughes, Miss Margaret Jones, Mr David Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd).

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:-** Mr David Clay.

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Swyddog Monitro), Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Ymddiheuriad:-** Ms Linda Byrne.

Gan fod 4 aelod etholedig a 3 aelod annibynnol yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod, cytunodd y Cynghorydd Lesley Day i arsylwi'n unig, er mwyn sicrhau cworwm, ond gan i aelod annibynnol arall gyrraedd y cyfarfod yn union ar ôl y bleidlais ar yr is-gadeiryddiaeth, gweithredodd y Cynghorydd Lesley Day fel aelod llawn o'r pwyllgor o eitem 3 ymlaen.

## 1. ETHOL CADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol Dr Einir Young yn gadeirydd y pwyllgor hwn am ba un bynnag yw'r cyfnod byrraf o blith y canlynol (a) dim llai na 4 blynedd neu ddim mwy na 6 blynedd, neu (b) hyd nes bo ei thymor mewn swydd yn dirwyn i ben.**

Estynnodd y Cadeirydd air o groeso i'r aelodau newydd ar y pwyllgor, sef Ms Jacqueline Hughes a Mr David Wareing.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol Miss Margaret Jones yn is-gadeirydd y pwyllgor hwn am ba un bynnag yw'r cyfnod byrraf o blith y canlynol (a) dim llai na 4 blynedd neu ddim mwy na 6 blynedd, neu (b) hyd nes bo ei thymor mewn swydd yn dirwyn i ben.**

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Ionawr, 2015 fel rhai cywir.

## 5. HUNAN ASESIAD

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gofyn i'r pwyllgor ystyried drafft o ddogfen hunan asesu a chynnal hunan asesiad o'i waith yn erbyn y swyddogaethau sydd wedi'u rhoi iddo dan y rheoliadau ac yng Nghyfansoddiad y Cyngor.

Gofynnwyd i'r aelodau ystyried y swyddogaethau a restrwyd yng ngholofn gyntaf y drafft gan nodi pa asesiad a gredai oedd yn berthnasol iddynt gan ddefnyddio'r categorïau canlynol:-

Categori 1 – Tystiolaeth bod y pwyllgor yn cyflawni'r gofynion yn llawn.
Categori 2 – Tystiolaeth bod y pwyllgor yn cwrdd â'r gofynion sylfaenol, ond bod modd gwneud rhagor i gwrdd yn llawn.
Categori 3 – Dim tystiolaeth bod y pwyllgor yn cyflawni'r gofynion.

Gwahoddwyd y pwyllgor hefyd i ychwanegu at y colofnau 'Tystiolaeth' a 'Chamau Pellach' ac eglurwyd y byddai unrhyw awgrymiadau am gamau pellach yn bwydo trwodd i raglenni gwaith y pwyllgor i'r dyfodol.

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro ymhellach at brif ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) 2013 gan nodi y gallai fod yn briodol i'r pwyllgor hwn edrych ar rai o'r materion fydd yn y rheoliadau, megis yr angen i osod gwybodaeth ynglŷn â chynghorau cymuned / tref yn electronig, newidiadau yn y dull o weinyddu a chyhoeddi cofrestrau buddiannau aelodau, hawl i greu pwyllgor safonau ar y cyd â chynghorau eraill, hawl i gyflwyno rheoliadau ynglŷn â'r dull o gyfeirio materion i'r Swyddog Monitro a sut y gellir caniatáu goddefiad i aelod sydd â buddiant rhagfarnol a hawl i ganiatáu i fater gael ei drosglwyddo i Bwyllgor Safonau awdurdod arall.

Yn ystod y drafodaeth, cyfeiriwyd yn benodol at y gofyn i gynghorau cymuned / tref sicrhau gwybodaeth yn electronig. Holwyd sut 'roedd y ddeddfwriaeth am gyfarch y gwahaniaeth mawr yn null y gwahanol gynghorau o weithio ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol cael rhestr o'r cynghorau cymuned a lle maent ar y daith ynghyd ag adroddiad i'r fforymau ardal fel y gallai'r aelodau basio'r neges ymlaen i'r cynghorau cymuned. Atgoffodd y Swyddog Monitro'r aelodau mai rôl y pwyllgor hwn oedd annog safon uchel o ymddygiad a bod y cyfrifoldeb ar y cynghorau unigol. Awgrymwyd y gallai'r pwyllgor edrych ar y mater hwn ymhen 6 mis, pan fydd y darlun yn gliriach, gan atgoffa'r cynghorau cymuned / tref bryd hynny o'r gofyn arnynt i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth newydd a'u hannog i ofyn am gymorth. Nodwyd hefyd y byddai'n fuddiol ymweld â chyfarfodydd cynghorau cymuned / tref, ond pwysleisiwyd na ddylid mynd i gyngor lle mae trafferthion gan fod rhaid i'r aelodau fod yn wrthrychol a byddai arsyllu'r trafferthion hynny yn gosod yr aelodau mewn sefyllfa bosib' o gael eu tynnu i mewn i'r anghydfod.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mabwysiadu'r canlynol fel hunan asesiad y pwyllgor o'i waith (*ychwanegiadau i'r ddogfen mewn llythrennau italig ac wedi'u tanlinellu*):-**

| SWYDDOGAETH | ASESIAD (1/2/3) | Tystiolaeth | Camau pellach |
|---|---|---|---|
| **Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau** | ***<u>1</u>*** | **Mae'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd wedi mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill.**<br><br>**Rhai o'r aelodau wedi mynychu pwyllgorau / cyfarfodydd Cyngor Llawn a Chabinet fel** | **Sefydlu rhaglen ymweld â / *<u>gwylio gwe-ddarllediadau</u>* cyfarfodydd pwyllgorau a Chyngor Llawn.**<br><br>**Gwahodd** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **sylwebyddion.**<br><br>**Mae aelodau'r Pwyllgor wedi mynychu hyfforddiant ar we ddarlledu cyfarfodydd.** | **aelodau'r Cyngor i gyfarfodydd y Pwyllgor.** |
| **Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad** | ***2*** | **Mabwysiadau ac arolygu trefn datrys leol ar gyfer Cwynion nad ydynt yn destun ymchwiliad Ombwdsman**<br><br>**Mabwysiadu Protocol Cyfryngau Cymdeithasol.**<br><br>**Adolygwyd y Protocol Cyswllt Aelod/ Swyddog.** | ***Cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor i'r Cyngor llawn.***<br><br>***Edrych ar hyrwyddo trefn datrys lleol i'r cynghorau Cymuned*.** |
| **Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad** | ***1*** | **Rhoddwyd cyngor ar fabwysiadu'r Cod yn 2008**<br><br>**Gwnaed sylwadau i'r Gweinidog perthnasol ar adolygiad o'r Cod Ymddygiad.** | |
| **Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad** | ***2*** | **Derbyn adroddiadau rheolaidd o honiadau yn erbyn aelodau**<br><br>**Derbyn adroddiadau blynyddol yr Ombwdsman a Phanel Dyfarnu Cymru**<br><br>**Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a datganiadau a wneir**<br><br>**Derbynnir adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch.** | **Ymgorffori sylwadau'r Pwyllgor ar y wybodaeth yma yn yr Adroddiad Blynyddol.**<br><br>***Bod Cadeirydd y pwyllgor yn rhoi cyflwyniad i'r Cyngor.*** |
| **Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud a'r Cod Ymddygiad** | ***1*** | **Mae'r aelodau wedi mynychu cynhadledd Safonau Cymru.**<br><br>**Cynhaliwyd Hyfforddiant aelodau'r Cyngor ym Mai 2012 a Gorffennaf 2013.** | ***Creu rhaglen hyfforddi ar gyfer aelodau'r pwyllgor.***<br><br>***Bod y pwyllgor hwn yn cael*** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **Darperir Hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad a'r Protocolau cysylltiedig fel rhan o broses anwytho aelodau newydd**<br><br>**Cyflwynir sesiynau hyfforddi achlysurol i aelodau'r Pwyllgor . Roedd y diwethaf ynglŷn â gwe ddarlledu yn 2014.** | ***cyflwyniad ar y broses o adolygu trefniadau llywodraethu corfforaethol.*** |
| **Rhoi goddefebau i aelodau** | ***1*** | **Mabwysiadwyd "polisi" ynglŷn â chaniatáu goddefebau.**<br><br>**Mabwysiadwyd trefn ar gyfer ystyried ceisiadau am oddefebau.** | |
| **Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon** | ***1*** | **Mabwysiadwyd trefn ar gyfer cynnal gwrandawiadau.**<br><br>**Cynhaliwyd 4 gwrandawiad ers 2012** | |
| **Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i bersonau a gynorthwyodd gydag ymchwiliad** | **1** | **Ni fu achlysur i dalu lwfans o'r fath** | |
| **Ymarfer y swyddogaethau uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned** | **2** | **Cynhaliwyd sesiynau hyfforddi i glercod cynghorau cymuned yn Hydref 2013**<br><br>**Anfonwyd holiadur yn gwneud archwiliad o gofrestrau buddiant cynghorau cymuned**<br><br>**Anfonwyd holiadur yn gwneud archwiliad o gofrestrau rhoddion a lletygarwch cynghorau cymuned**<br><br>**Anfonir adroddiad blynyddol y Pwyllgor at yr** | **Symud ymlaen i greu sesiynau hyfforddiant** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **holl gynghorau cymuned.**<br><br>**Canfasiwyd barn y cynghorau cymuned ar hyfforddiant yn seiliedig ar y Cod a dylanwad llywodraethu da.** | |

**(b) Awdurdodi'r Swyddog Monitro a'r Uwch Gyfreithiwr i lunio drafftiau o'r canlynol i'w cytuno yn y cyfarfod nesaf:-**

- **Rhaglen waith ar gyfer 2015/16**
- **Rhaglen hyfforddi ar gyfer 2015/16**
- **Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2014/15 (i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Gorffennaf eleni ac i'r Cyngor Blynyddol bob blwyddyn ar ôl hynny).**

**6. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Mynegwyd pryder o ddeall bod yr Ombwdsmon yn ymchwilio i gŵyn 2.1 ers blwyddyn.

Gan gyfeirio at gŵyn 2.2, nododd yr Uwch Gyfreithiwr mai penderfyniad y Pwyllgor Safonau ar 13 Ebrill oedd i roi cerydd i'r cynghorydd ac y byddai'r rhybudd o benderfyniad yn cael ei gyhoeddi'n fuan.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**7. ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL DYFARNU CYMRU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – adroddiad y Swyddog Monitro yn amgáu copi o Adroddiad Blynyddol y Panel ar gyfer 2013/14.

Tynnwyd sylw'r aelodau'n benodol at:-

- Achos APW/005/2010-011/CT – Cyngor Sir y Fflint. Nodwyd bod yr achos Uchel Lys a ddeilliodd o'r achos hwn wedi amlygu'r ffaith bod rhaid i bobl fod yn oddefgar o feirniadaeth gan gymryd i ystyriaeth hawl gwleidyddion i ddatgan barn ac y gallai'r pwyllgor fod yn cyfeirio at y math yma o achos yn y dyfodol.
- Achos APW/006/2012-013/AT – Cyngor Gwynedd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**8. FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd er gwybodaeth – cofnodion cyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2014. 'Roedd yr Ombwdsmon yn bresennol yn y cyfarfod i ymateb i gwestiynau gan y Fforwm ac atodwyd copi o'r cwestiynau a'r atebion i'r cofnodion.

Tynnwyd sylw'r aelodau'n benodol at sylw Swyddog Monitro Cyngor Gwynedd (o dan gwestiwn 4 i'r Ombwdsmon) ynglŷn â diffyg capasiti i ddelio gyda Phrotocolau Datrysiadau Lleol y Cynghorau Cymuned a'r ffaith y gall cyflwyno prawf budd cyhoeddus gynorthwyo i ostwng nifer y cwynion gan Gynghorau Cymuned.

Nodwyd bod gwerth i’r Fforwm fel cyfrwng i rannu ymarfer da ar draws y Gogledd.

**PENDERFYNWYD nodi’r wybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00am a daeth i ben am 12.15pm.